# BRIFFIO POLISI

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri




## DIWEDDARIADAU POLISI TAI

- Estyniad ar atal droi allan
- Cyllid Tai Cymdeithasol Newydd
- Amser i Ddod â Chartrefi Gwag yn ôl i ddefnydd

## POLISI A DYLANWADU

Mae TPAS Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llunwyr penderfyniadau allweddol eraill. Rydym yn cyfrannu at newid polisi trwy hysbysu am ddatblygiadau a materion polisi, sianelu profiad ac anghenion tenantiaid a landlordiaid i lunwyr polisi, a gweithio gyda sefydliadau partner i ddylanwadu ar bolisi.

# Deddfwriaeth i atal troi allan ymhellach

Ar 8 Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddant yn ymestyn y ddeddfwriaeth i atal troi allan o 11 Ionawr i 31 Mawrth. Mae'r mesurau hyn yno i amddiffyn pobl sy'n rhentu eu cartrefi yn ystod y pandemig hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi; mewn achosion lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig yn digwydd, bydd hysbysiadau troi allan yn parhau.

Iyn ychwanegol at hyn, bydd ymestyn yr isafswm cyfnod rhybudd i 6 mis, hefyd yn aros yn ei le tan 31 Mawrth 2021.

**Datganiad i'r wasg:** https://bit.ly/38ATn1G

# Cyllid Tai Cymdeithasol 2021/22

Ddiwedd mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu cyllideb ddrafft sy'n nodi cynlluniau gwariant ar gyfer y 12 mis nesaf, o Ebrill 2021. Trafodir y drafftiau yn y Senedd ym mis Chwefror 2021.

Mae'r drafftiau'n awgrymu cynnydd o £37m yn y grant tai cymdeithasol, gan gymryd y swm llawn i £200m. Bydd ymrwymiad y cynnydd hwn yn galluogi darparwyr tai cymdeithasol i barhau i adeiladu'r cartrefi fforddiadwy sydd mawr eu hangen.

**Datganiad i'r Wasg:** https://bit.ly/39ks6zI

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd

Ar 7 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bod wedi derbyn mwy na 500 o geisiadau i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Dylai dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd gyfrannu at yr angen mawr am gartrefi yn y sector rhentu.

**Datganiad i'r Wasg:** https://bit.ly/3sgw596

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â:
**elizabeth@tpas.cymru**



TPAS CYMRU
TENANT PULSE
PWLS TENANTIAID

Os ydych eisiau bod yn rhan o banel llais tenantiaid mwyaf Cymru, a chael llais wrth lunio polisi cenedlaethol, ymunwch â'n Panel Pwls Tenantiaid. Llais tenantiaid yng Nghymru yw Pwls Tenantiaid. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Y prif nod yw darganfod beth sydd bwysicaf i denantiaid yng Nghymru.
Mae Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio canlyniadau eu harolygon i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

**Cliciwch yma i ymuno: www.tpas.cymru/pwls**